Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy Llanrwst
Mehefin 20fed 2020

ADRAN BARDDONIAETH

1. Cerdd Gaeth neu Rydd heb fod dros 120 o linellau.
   Testun: **'PRYDERON'**
   Gwobr: Cadair Fechan a £50.
   Y Gadair yn rhoddedig gan Aelod o'r Pwyllgor, a £50 yn rhoddedig gan Gaynor Evans a'r teulu, Belmont, Llanddoged.
2. Telyneg: **'TYMHORAU'** Gwobr: £15.
3. Englyn : **'BREXIT'** Gwobr: £15
4. Englyn Digri **: 'DANNEDD GOSOD'** Gwobr: £15
5. Emyn :– **'CAROL PLYGAIN'** Gwobr: £15.

ADRAN RHYDDIAITH

6. Stori Fer. Agored. Gwobr 1. £15 2. £10

7. **TLWS YR IFANC dan 25 oed**
   Dewis o'r canlynol - Cerdd hyd at 30 o linellau, Portread neu Stori Fêr.
   Gwobr: Tlws yr Ifanc a £25

8. TLWS Y CERDDOR dan 25 oed

Unrhyw ddarn o Gerddoriaeth Gwreiddiol ar gyfer unrhyw gyfrwng o ddewis yr ymgeisydd.
Gwobr: Tlws y Cerddor (i'w gadw am flwyddyn) a Thlws i'w gadw a £25

CYSTADLAETHAU AR GYFER DYSGWYR

9. Dan 19 oed – Unrhyw ddarn o Ryddiaith
Gwobrau: Tlws a £15, £10, £5

Cystadleuaeth Cyfansoddi Tôn ar eiriau: Emyn Gwladgarol o eiddo John Eric Hughes, Abergele enillydd Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy, Llanrwst 2018.
Gwobr: £15.

EMYN GWLADGAROL

Mae'na alaw yn y galon
Ac mae asbri yn y gân;
Bydd ieuenctid Cymru'n barod
Pan ddêl gwawr yr Ysbryd Glân.
Aros yma
Mae ein cân o glod i Ti.

Mae'na olau ar y mynydd,
Llewyrch gobaith dros y bryn
A gogoniant y Creawdwr
Sy'n disgleirio ar y llyn.
Mae yng Nghymru
Groeso i Oleuni'r byd.

Mae llawenydd yn yr enaid
Am fod cariad Duw wrth law.
Mewn llawenydd yr awn allan
I wynebu'r hyn a ddaw.
Doed ei gariad
Yn hyfrydwch drwy ein gwlad.

Dyddiad Cau: Mai 22ain 2020

I law yr ysgrifenyddion :-

Dennis ac Enid Davies, Gwenallt, Ffordd Llanddoged, Llanrwst. LL26 0DW